Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## 1. Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 – Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

**1.1 Teitl:** Datblygiad Marina Harbwr Abergwaun

**1.2 Cymeradwyaeth Reoleiddiol:** Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

**1.3 Gweithredwyr**: Conygar Stena Line Ltd.

**1.4 Trwydded Forol:** CML1604

**1.5 Lleoliad:** Harbwr Abergwaun, Wdig, Bae Abergwaun, Sir Benfro

## 2. Cyflwyniad

**2.1** Crynodeb yw'r ddogfen hon o'r penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol sydd wedi'i wneud o dan Reoliad 22 o Reoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) mewn perthynas â chais Trwydded Forol (cyf: CML1604) a gyflwynwyd gan Conygar Stena Line Ltd. Ategwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru, sef yr Awdurdod Priodol, wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a ddarparwyd i ategu'r cais, ac mae bellach mewn sefyllfa i roi penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol i Conygar Stena Line Ltd.

**2.2** Yn unol â Rheoliad 22 o'r Rheoliadau Gweithiau Morol, mae Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru, sef yr Awdurdod Priodol, wedi ystyried y cais, y datganiad amgylcheddol a sylwadau gan gyrff ymgynghori ac aelodau o'r cyhoedd ac wedi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol. Yn dilyn casgliad a wnaed gan Asesiad Sgrinio dros Ffiniau, penderfynwyd na fyddai'n rhaid ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**2.3** Wrth wneud y penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol, mae Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried yr holl wybodaeth amgylcheddol berthnasol, yn benodol, cais trwydded forol CML1604, y Datganiad Amgylcheddol, a chyflwyniadau a wnaed gan Gyrff Ymgynghori, yr ymgeisydd ac aelodau o'r cyhoedd.

**2.4** I weld disgrifiad llawn o'r ystyriaeth, gweler y ddogfen Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol.

## 3. Disgrifiad o'r Prosiect a threfniadau Rheoleiddio

**3.1** Mae Conygar Stena Line Ltd yn gwneud cais am Drwydded Forol i garthu rhan o Harbwr Abergwaun ac adeiladu datblygiad marina yn Harbwr Abergwaun, Wdig, Sir Benfro.

**3.2** Mae manylion y prosiect wedi'u rhestru isod. Mae'r agweddau yr ymgeisiwyd amdanynt trwy Drwydded Forol wedi'u nodi â *:

- **Dau forglawdd i amddiffyn y marina rhag symudiad y tonnau***
- **Sianel fynediad wedi'i charthu rhwng y ddau forglawdd***
- **Basn marina wedi'i garthu***
- **Rhan o dir wedi'i adfer o ymyl yr harbwr presennol wedi'i greu o ddeunydd a garthwyd***
- **Ardal wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiadau i ddod***
- **Datblygiad preswyl: 253 o randai a chaffi/tafarn**
- **Cyfleuster marina wedi'i adeiladu gan ddefnyddio ysgraffau sy'n arnofio, sydd â lle i 450 o angorfeydd***
- **Ysgraff ar gyfer cychod pysgota***
- **Ysgraff ar gyfer cychod masnachol (e.e. cychod plymio)***
- **Iard gychod sy'n cynnwys iard wasanaeth a chraen cychod***
- **Gweithdai iard gychod a siopau deunydd pysgota**
- **Adeilad swyddfa marina sy'n cynnwys safleoedd gwerthu arbenigol (e.e. siopau gwerthu gêr môr, cychod, golchdy)**
- **Lle parcio ceir ar gyfer y marina ac ardaloedd preswyl**
- **Ffordd mynediad newydd**
- **Seilwaith newydd ar gyfer draenio dŵr arwyneb a dŵr budr**
- **Nodweddion tirweddu allanol caled a meddal**

**3.3** Mae'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gyda'r cais am drwydded forol yn cynnwys cwmpas eang y Prosiect, ar y môr ac ar y tir.

## 4. Y Datganiad Amgylcheddol – Rheoliadau Gweithiau Morol 12 (1)(d)

**4.1** Gwnaeth y Datganiad Amgylcheddol amlinellu effeithiau posibl y prosiect arfaethedig a drefnwyd o dan y penawdau canlynol:

**4.2** Penodau technegol:

- *Hydrodynameg a geomorffoleg*
- *Rheoli halogiad a deunyddiau gwaddodion*

- *Ansawdd yr aer*
- *Traffig a thrafnidiaeth*
- *Tirwedd ac effeithiau gweledol*
- *Ecoleg a chadwraeth natur*
- *Ansawdd y dŵr, dyfroedd arwyneb a pherygl llifogydd*
- *Sŵn a dirgryndod*
- *Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol*
- *Effeithiau economaidd-gymdeithasol*
- *Effeithiau adeiladu*
- *Y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol*
- *Crynodeb o'r effeithiau*

**4.3**. Ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1)(d) ac Atodlen 3 y Rheoliadau Gweithiau Morol.

## 5. Unrhyw wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn unol â hysbysiad o dan Reoliad 14(1)

**5.1** Cyflwynwyd gwybodaeth bellach o ran gwaith archaeolegol sydd angen ei wneud i warchod y llongddrylliad pren ac addasiadau i nifer o ddogfennau a chynlluniau ar 13 Chwefror 2017.

## 6. Canlyniad y broses a nodwyd yn Atodlen 5 o ran unrhyw sylwadau a ddaeth i law sy'n unol â'r datganiad a gyfeiriwyd ato yn Rheoliad 16(2)(g)

**6.1** Gosodwyd Hysbysiadau Cyhoeddus i hysbysu partïon â buddiant o'r gwaith arfaethedig ac i roi'r cyfle i unrhyw bartïon â buddiant neu aelodau o'r cyhoedd roi sylwadau ar y cais fel y bo angen.

**6.2** Cyhoeddwyd y dogfennau cais fel a ganlyn:

- Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus wedi'i gyfieithu yn y *County Echo* ar 27 Mai 2016 a 3 Mehefin 2016.
- Roedd y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd yn Llyfrgell Abergwaun am 49 o ddiwrnodau ar ôl i'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf gael ei gyhoeddi.
- Derbyniwyd sylwadau gan un aelod o'r cyhoedd.

**6.3** Cyflwynwyd gwybodaeth bellach o ran gwaith archaeolegol sydd angen ei wneud i warchod y llongddrylliad pren ac addasiadau i nifer o ddogfennau a chynlluniau ar 13 Chwefror 2017. Roedd yr Wybodaeth Bellach ar gael i'r cyhoedd yn Llyfrgell Abergwaun, am 49 o ddiwrnodau ar ôl i'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf gael ei gyhoeddi. Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus wedi'i gyfieithu yn y *County Echo* ar 24 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2017.

**6.4** Derbyniwyd sylwadau gan ddau aelod o'r cyhoedd ar ôl hysbysebu'r Wybodaeth Bellach.

**6.5** Ymdriniwyd â'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn unol ag Atodlen 5 y Rheoliadau Gweithiau Morol.

## 7. Sylwadau a wnaed gan Gyrff Ymgynghori mewn ymateb i'r ymgynghoriad – Rheoliad 17(1)(a)(iv) o'r Rheoliadau Gweithiau Morol – ac ystyriaeth berthnasol o ymatebion y cyhoedd lle bo hynny'n berthnasol

**7.1** Ymgynghorwyd ar y cais am Drwydded Forol a'r dogfennau ategol cysylltiedig ar 16 Mai 2016 am gyfnod o 42 o ddiwrnodau. Fe'i hanfonwyd at y cyrff ymgynghori canlynol:

**7.2** Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS), y Weinyddiaeth Amddiffyn, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Ystad y Goron, yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer Sir Benfro, yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, yr Awdurdodau Harbwr Lleol, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, Harbwr Stena Line, y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Sir Benfro, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Trinity House, Cangen Bysgodfeydd Llywodraeth Cymru, Swyddogion Gorfodi Morol, ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru.

**7.3** Gwnaethpwyd sylwadau gan y sefydliadau canlynol: Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS), Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Ystad y Goron, Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Trinity House, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Adran Gynllunio Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, a'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol.

## 8. Safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop

**8.1** Wrth wneud penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol, mae Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried effaith bosibl y cynigion ar safleoedd Ewropeaidd.

**8.2** Ystyriwyd effaith y cynnig arfaethedig ar y Safleoedd Ewropeaidd canlynol, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried eu nodweddion a'u hamcanion cadwraeth wrth iddo benderfynu ar y drwydded:

- Ardal Cadwraeth Arbennig Tyddewi (4.5km)
- Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau (3.3km)
- Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Aberteifi
- Ardal Cadwraeth Arbennig Môr Sir Benfro
- Ardal Cadwraeth Arbennig Môr Gorllewin Cymru

**8.3** Cynhaliwyd prawf o'r effaith sylweddol debygol a phenderfynwyd y gellid diystyru effeithiau sylweddol posibl ar nodweddion y Safleoedd Ewropeaidd a restrir uchod. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r cynnig arfaethedig, pan ystyriwyd ef ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad, yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle(oedd) Ewropeaidd dan sylw.

## 9. Materion i'w hystyried mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol, y cais am Drwydded Forol, a'r sylwadau a dderbyniwyd

**9.1** Wrth wneud penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol Rheoliad 22, rydym wedi ystyried y materion a nodwyd ar ôl ystyried y datganiad amgylcheddol, y sylwadau gan gyrff ymgynghori a chan aelodau o'r cyhoedd, ac unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd yn sgil hyn mewn ymateb gan yr ymgeisydd. Gellir gweld manylion pellach ar yr ystyriaeth hon yn y penderfyniad cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol llawn (Saesneg yn unig).

## 10. Gwerthusiad Rheoleiddio a Phenderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

Wrth ystyried y cais i garthu rhan o Harbwr Abergwaun ac adeiladu datblygiad marina yn Harbwr Abergwaun, Wdig, Sir Benfro, fel y manylir yn llawn yn 4.2.1, ystyriwyd y canlynol:

- y cais;
- y datganiad amgylcheddol;
- unrhyw wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, yn unol â hysbysiad o dan Reoliad 14(1);
- canlyniad y broses a nodwyd yn Atodlen 5 o ran unrhyw sylwadau a ddaeth i law sy'n unol â'r datganiad y cyfeiriwyd ato yn Rheoliad 16(2)(g);
- unrhyw sylwadau a wnaed gan y cyrff ymgynghori mewn ymateb i'r ymgynghoriad, yn unol â'r llythyr y cyfeiriwyd ato yn Rheoliad 17 (1)(a)(iv); a
- chanlyniad unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd gan awdurdodau gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, yn unol â Rheoliad 20;
- rhoddwyd ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth berthnasol; ac
- ystyriwyd effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y prosiect ar—
    - bodau dynol, ffawna a fflora;
    - pridd, dŵr, aer, yr hinsawdd a'r dirwedd;
    - asedau materol a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a'r

- rhyngweithiadau rhwng unrhyw ddau neu ragor o'r pethau a nodwyd yn yr is-baragraffau blaenorol.

Yn unol â hyn, deuir i'r casgliad bod effeithiau amgylcheddol y prosiect wedi'u nodi, eu disgrifio a'u hasesu'n ddigonol ac y gellir sicrhau camau lliniaru priodol.

Felly, rydym yn rhoi cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer y prosiect i Conygar Stena Line Ltd.

## Cymeradwyo

**Cynhyrchwyd gan:**

**Dr. Jasmine Sharp – Uwch-swyddog Trwyddedu**

**Dyddiad:** 9 Mehefin 2017

**Cymeradwywyd gan:**

**Adam Cooper, Uwch-swyddog Trwyddedu, yn gweithredu o dan Gynllun Dirprwyo Anariannol**

**Llofnodwyd:**

**Dyddiad:** 12 Mehefin 2017